

Deall Rhestru yng Nghymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DEALL

Medi 2018

 Cadw

Pwy ddylai ddarllen Deall Rhestru yng Nghymru?



Bwthyn chwarelwr sy'n dyddio o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn Nant Peris, sy'n rhestredig gradd II.

© Hawlfraint y Goron (2018), Cadw, Llywodraeth Cymru

Bydd *Deall Rhestru yng Nghymru* yn helpu unrhyw un sydd am wybod pam a sut y caiff adeiladau eu rhestru neu y mae angen iddo wybod hynny. Mae hefyd yn esbonio sut i ofyn am i adeilad gael ei restru neu ei ddaedrestru a sut i wneud cais am adolygiad o benderfyniad rhestru.

Mae *Deall Rhestru yng Nghymru* hefyd yn rhoi cyflwyniad i berchenogion, meddianwyr ac asiantau i'r hyn y mae rhestru yn ei olygu iddynt.

Mae cydgyhoeddiad, *Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru*, yn cynnwys cyngor a chanllawiau mwy ymarferol ynglŷn â gwneud newidiadau i adeiladau rhestredig a phryd a sut y mae angen i chi wneud cais am ganiatâd adeilad rhestredig.

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/historicbuildings/?lang=cy>

Cadw, Llywodraeth Cymru
Plas Carew
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd CF15 7QQ

Ffon: 03000 256000 <http://cadw.gov.wales/?lang=cy>

Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, yn gweithio i sicrhau amgylchedd hanesyddol hygrych a ddiogelir yn dda i Gymru.

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron 2018 ac eithrio lle y'i nodir. WG34595 Digidol ISBN 978-1-78903-891-0

Llun y clawr: Tai sy'n dyddio o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a Gwesty'r Harbourmaster, Pen Cei, Aberaeron, Ceredigion. Mae'r adeiladau hyn, sy'n rhestredig gradd II oherwydd eu gwerth fel grŵp, yn rhan bwysig o undod pensaernïol a hanesyddol y cei (©Hawlfraint y Goron (2018) Croeso Cymru).



Y cyfadeilad o adeiladau sy'n ffurfio Glofa'r Navigation, Crymlyn, y mae llawer ohonynt yn rhestredig.

© Hawlfraint y Goron (2018), Cadw, Llywodraeth Cymru

Wyddech chi?	3	7 Hysbysiadau Cadw Adeilad	23
Cyflwyniad	4	8 Tystysgrif Imiwnedd rhag Rhestru	24
1 Beth yw Rhestru?	5	9 Gofalu am Adeiladau Rhestredig	25
2 Sut y caiff Adeiladau eu Dewis i'w Rhestru?	10	10 Gwneud Newidiadau i Adeiladau Rhestredig	26
3 Dysgu am Adeiladau Rhestredig	17	11 Grantiau	28
4 Sut i Wneud Cais i Restru Adeilad	19	Rhagor o Wybodaeth	29
5 Sut i Wneud Cais am Adolygiad o Benderfyniad Rhestru	21	Cysylltiadau	31
6 Sut i Wneud Cais i Ddadrestru Adeilad neu Ddiwygio Rhestriad	22		



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Wyddech chi? –

- 1 Mae tua 30,000 o adeiladau rhestredig yng Nghymru.
- 2 Ceir cofnod o bob adeilad rhestredig ar Cof Cymru — Asedau Hanesyddol Cenedlaethol Cymru
<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/recordsvl/cof-cymru/?lang=cy>
- 3 Gellir rhestru adeiladau yn raddau I un), II* (dau seren) a II (dau), ond caiff pob adeilad rhestredig ei drin yn gyfartal yn y system gynllunio.
- 4 Gall unrhyw un ofyn am i adeilad gael ei ystyried i'w restru os bydd o'r farn ei fod o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig.
- 5 Caiff newidiadau i adeilad rhestredig eu rheoli gan awdurdodau cynllunio lleol drwy broses a elwir yn ganiatâd adeilad rhestredig.

Cyflwyniad –

Mae adeiladau hanesyddol yn rhan werthfawr o'n treftadaeth. Maent yn helpu i greu cymeriad unigryw Cymru ac yn cyfrannu at ein hunaniaeth a'n hymdeimlad o le. Maent yn bwysig i ansawdd ein bywyd ac yn ein helpu i ddeall ein hanes. Maent hefyd yn hyrwyddo delwedd gadarnhaol o Gymru ledled y byd.

Mae'r broses restru yn nodi adeiladau sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig i Gymru. Mae adeiladau rhestredig, sy'n amrywio o adeiladau canoloesol i rai a adeiladwyd mor ddiweddar â 30 mlynedd yn ôl, yn cwmpasu llawer o gweddau ar ein bywydau o leoedd i fyw a gweithio

ynddynt i leoedd i addoli a chwarae. Mae'r adeiladau hyn, sydd o bwys cenedlaethol, yn creu cysylltiad ag uchelgeisiau a sgiliau cenedlaethau'r gorffennol. Mae'r broses restru yn ein helpu i nodi pob un o nodweddion arbennig yr adeiladau hyn a'u gwarchod er budd cenedlaethau'r dyfodol.

Mae gan berchenogion a meddianwyr presennol adeiladau rhestredig ran bwysig i'w chwarae yn y gwaith o reoli ein treftadaeth. Drwy eu gofal a'u hymrwymiad i ddiogelu'r asedau gwerthfawr hyn, byddwn yn gallu mwynhau'r adeiladau hyn sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig nawr ac yn y dyfodol.



Mae adeiladau hanesyddol yn rhan werthfawr o'n treftadaeth. Maent yn adrodd straeon am bobl o bob cefndir — nid dim ond yr enwogion neu'r cyfoethogion. Adeiladwyd Forge Row yng Nghwmafon, er enghraifft, ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg i weithwyr haearn yn Efail y Farteg gerllaw. Mae bellach yn rhestredig gradd II* fel un o'r enghreifftiau gorau o derasau o dai diwydiannol sydd wedi goroesi mewn cwm yn ne Cymru. Roedd y teras yn cynnwys 12 o fythynnod yn wreiddiol ond dyblwyd eu nifer pan gafodd y rhes ei hatgyweirio yn 1987-88. Dengys hyn sut y gall newid a reolir yn ofalus gadw cymeriad y bythynnod tra'n sicrhau eu bod yn addas i ffordd o fyw yr oes fodern

© Hawlfraint y Goron (2018), Cadw, Llywodraeth Cymru

I. Beth yw Rhestru? –

Rhestru yw'r ffordd y caiff adeilad neu strwythur o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig ei gydnabod gan y gyfraith drwy Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.

Er mai Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am lunio'r rhestr, yn ymarferol, ni — Cadw — sy'n argymhell pa adeiladau y dylid eu rhestru neu eu dadrestru.

Mae'r term 'adeilad rhestredig' yn eang ei gwmpas ac mae nid yn unig yn cynnwys adeiladau megis tai, eglwysi neu ysguboriau ond hefyd waliau, cerrig milltir, pontydd, cabanau ffôn a sawl math arall o strwythur.

Rheolir newidiadau i adeiladau rhestredig drwy ddefnyddio caniatâd adeilad rhestredig, sy'n rhan o'r system gynllunio. Nid yw rhestru yn orchymyn cadw ond bwriedir iddo helpu i reoli newid a gwarchod yr adeilad, ei leoliad a'i nodweddion rhag gwaith anghydnaws a allai niweidio ei ddiddordeb arbennig.

Mae llawer o adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol, ond er mwyn i adeiladau gael eu rhestru, rhaid i'r diddordeb hwn fod yn 'arbennig'. Esbonnir y meini prawf ar gyfer diffinio diddordeb arbennig yn adran 2.

Er bod tua 30,000 o adeiladau rhestredig yng Nghymru, mae'r rhain yn cyfrif am lai nag 1 y cant o'r holl adeiladau yng Nghymru. Rydym yn parhau i ychwanegu adeiladau ar y rhestr, ac weithiau eu tynnu oddi ami. Mae pob adeilad rhestredig o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig ond rydym yn eu dosbarthu'n un o dair gradd.

Gradd I (one) — adeiladau o ddiddordeb eithriadol. Mae'r rhain yn cyfrif am lai na 2 y cant o gyfanswm yr adeiladau rhestredig yng Nghymru.

Gradd II* (two star) — adeiladau o bwys penodol sydd o ddiddordeb mwy nag arbennig. Mae'r rhain yn cyfrif am tua 7 y cant o gyfanswm yr adeiladau rhestredig yng Nghymru.

Gradd II (two) — adeiladau o ddiddordeb arbennig sy'n cyfiawnhau pob ymdrech sy'n cael ei gwneud i'w diogelu. Mae'r rhain yn cyfrif am tua 91 y cant o gyfanswm yr adeiladau rhestredig yng Nghymru.

Ni waeth beth fo'u gradd, caiff pob adeilad rhestredig ei drin yn gyfartal yn y system gynllunio.

Mae rhestru yn cydnabod bod adeilad neu strwythur o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Dengys yr adran ganlynol sut y gallant amrywio'n eang o ran math a dyddiad.



Heol Arenig, y Bala, Gwynedd. Mae'r grŵp hwn o dai brics coch, a adeiladwyd yn 1909, yn rhestredig gradd II* fel teras Edwardaidd arbennig o raenus â manylion cywrain, sydd wedi cadw ei gymeriad gwreiddiol.

© Hawlfraint y Goron (2018), Cadw, Llywodraeth Cymru




Frondeg, Rhiw, Gwynedd. Mae'r bwthyn bach hwn, sy'n dyddio o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, hefyd yn rhestredig gradd II. Mae mewn cyflwr da ac mae ei du mewn gwreiddiol bron yn gyflawn o hyd, gan gynnwys ei groglofft neu lwyfan cysgu agored y gellid ei gyrraedd drwy ddringo ysgol o'r llawr islaw. Mae Frondeg yn enghraifft bwysig o'r math o dŷ gwerinol a adeiladwyd gan bobl dlawd yng nghefn gwlad, yn aml yn answyddogol, ar dir comin.

© Hawlfraint y Goron (2018), Cadw, Llywodraeth Cymru



Eglwys Garmon Sant, Betws Garmon, Gwynedd. Mae gan Gymru gyfoeth o addoldai hanesyddol, y mae llawer ohonynt yn rhestredig. Mae Eglwys Garmon Sant yn rhestredig gradd II am ei bod yn eglwys heb ei newid sy'n dyddio o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac yn ymgais anarferol yn yr arddull Romanesg sy'n ffurfio tironod amlwg.

© Hawlfraint y Goron (2018), Croeso Cymru



Pont gludo Casnewydd. Y bont gludo hon, sy'n rhestredig gradd II, yw'r un orau a'r mwyaf ym Mhrydain Fawr a'r unig un yn y DU a adeiladwyd gan y dyfeisiwr a'r peiriannydd byd-enwog, Ferdinand Arnodin. Mae'n un o ddim ond nifer fach o bontydd cludo sydd wedi goroesi yn y byd.

© Hawlfraint y Goron (2018), Cadw, Llywodraeth Cymru



Goleudy'r Parlwr Du, Sir y Fflint. Mae'r goleudy cynnar hwn, sy'n rhestredig gradd II, mewn cyflwr da ac mae ganddo'r llusern gynharaf, o bosibl, yng Nghymru.

© Hawlfraint y Goron (2018), Croeso Cymru



Caban ffôn, Silstwn, Bro Morgannwg. Arferai'r caban ffôn coch fod yn nodwedd gyffredin iawn ar strydoedd Prydain ond mae'n mynd yn fwyfwy prin. Mae'r enghraifft hon o'r math K6 eiconig, a gynlluniwyd gan Giles Gilbert Scott, yn rhestredig gradd II oherwydd ei chynllun a'i lleoliad mewn ardal gadwraeth. Mae'r bwthyn yn y cefndir hefyd yn rhestredig gradd II.

© Rob Williams 2014



Y Gofeb Ryfel, Stryd Frogmore, y Fenni. Yn ogystal â chynnig cysylltiadau personol i deuluoedd a chymrodyr y rhai a gofeir, mae cofebau rhyfel yn chwarae rôl bwysig yn hunaniaeth ein cymunedau. Mae'r enghraifft hon yn y Fenni yn rhestredig gradd II oherwydd ei diddordeb arbennig fel cofeb wedi'i chynllunio'n dda mewn man amlwg.

© Hawlfraint y Goron: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru



Er mwyn cael eu rhestru'n radd I, mae'n rhaid i adeiladau fod o ddiddordeb eithriadol. Mae Castell y Waun, Wrecsam, wedi'i gynnwys ar radd I am ei fod yn adeilad hynod o bwysig a oedd yn gastell yn wreiddiol, a adeiladwyd yn ystod teyrnasiad y Brenin Edward I, a addaswyd yn llwyddiannus i fod yn ganolfan ystâd bwysig ar y gororau a phlasty mawr.

© Hawlfraint y Goron: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru



Mae gan Gymru draddodiad hir o anghydfurfiaeth sydd wedi helpu i lywio hanes y wlad. Mae Capel Maesyronnen yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig a'r bwthyn cyfagos yn rhestredig gradd I fel yr adeiladau pwysicaf sydd wedi goroesi sy'n gysylltiedig â'r mudiad Anghydfurfiol cynnar yng Nghymru

© Jill Tate; drwy garedigrwydd y Landmark Trust



Mae adeiladau rhestredig gradd II* yn adeiladau sydd o ddiddordeb mwy nag arbennig. Mae'r Tŷ Cregyn swynol ar Fferm Cilwendeg, Sir Benfro, yn rhestredig gradd II* fel un o'r adeiladau gardd mwyaf anarferol yng Nghymru.

© Hawlfraint y Goron (2018), Cadw, Llywodraeth Cymru



Mae Plas-y-n-y-Pentre yn Sir Ddinbych yn rhestredig gradd II* am ei fod yn ffermdy ffrâm bren sylweddol a phictiwrêsg, sy'n dyddio o'r ail ganrif ar bymtheg, a chanddo gymeriad traddodiadol a gadwyd yn dda.

© Hawlfraint y Goron: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru



Mae'r mwyafrif o'r adeiladau rhestredig yng Nghymru yn rhestredig gradd II. Maent yn adeiladau o ddiddordeb arbennig sy'n cyfiawnhau pob ymdrech i'w diogelu. Mae Troedrhiwfallen, a adeiladwyd ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif neu ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg gan ddefnyddio clom (cymysgedd o glai a gwellt) yn bennaf, yn rhestredig gradd II oherwydd ei ddiddordeb arbennig fel bwthyn a adeiladwyd gan ddefnyddio dulliau traddodiadol, a chanddo fath anarferol o gynllun gwreiddiol. Mae hefyd yn ganolbwynt i'r pentref ac, felly, mae'r ffaith ei fod wedi goroesi yn arbennig o bwysig.

© Hawlfraint y Goron (2018), Cadw, Llywodraeth Cymru



Mae Meddygfa Eglwysbach, a adeiladwyd yn 1899 fel capel Wesleyaidd (Capel Goffa) ac a addaswyd yn feddygfa ar ddechrau'r 1990au, yn rhestredig gradd II oherwydd ei ddiddordeb pensaernïol fel capel clasurol uchelgeisiol a adferwyd yn dda mewn man amlwg ger Pont Pontypridd. Mae Eglwysbach hefyd yn dangos sut y gellir addasu adeiladau rhestredig yn llwyddiannus er mwyn sicrhau dyfodol cynaliadwy iddynt.

© Hawlfraint y Goron (2018), Cadw, Llywodraeth Cymru

2. Sut y caiff Adeiladau eu Dewis i'w Rhestru? –

Rydym yn asesu pob adeilad yn ôl ei deilyngdod ei hun. Rydym yn ystyried sawl ffactor wrth benderfynu p'un a oes gan adeilad y diddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig sydd ei angen er mwyn ei restru.

Mae *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol* yn nodi'r meini prawf ar gyfer rhestru. Mae'n rhaid rhestru pob adeilad sy'n bodloni'r meini prawf hyn <https://gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan-24/?lang=cy>.

Y prif ystyriaethau yw:

Diddordeb pensaernïol

Mae hyn yn cynnwys adeiladau sydd o ddiddordeb oherwydd eu cynllun pensaernïol, eu haddurniadau a'u crefftwai. Mae hefyd yn cynnwys enghreifftiau pwysig o fathau penodol o adeiladau a thechnegau adeiladu penodol; er enghraifft, adeiladau sy'n arddangos arloesedd neu rinweddau technolegol a ffurfiau cynllun arwyddocaol.

Diddordeb hanesyddol

Mae hyn yn cynnwys adeiladau sy'n dangos agweddau pwysig ar hanes cymdeithasol, economaidd, diwylliannol neu filwrol Cymru.

Cysylltiadau hanesyddol agos

Mae hyn yn cynnwys adeiladau sydd â chysylltiad hanesyddol agos â phobl neu ddigwyddiadau sydd o bwys i Gymru.

Gwerth fel grŵp

Mae hyn yn cynnwys adeiladau sy'n cyfrannu at undod pensaernïol neu hanesyddol pwysig, neu sy'n enghreifftiau gwych o gynllunio, megis sgwariau, terasau neu bentrefi model.

Oedran a phrinder

Caiff pob adeilad a godwyd cyn 1700 ac sydd wedi goroesi ar ei ffurf wreiddiol, fwy neu lai, ei restru. Caiff rhan fwyaf o adeiladau a godwyd rhwng tua 1700 a 1840 eu rhestru, er y bydd hyn yn dibynnu'n rhannol ar faint o'r ffurf a'r adeiladwaith gwreiddiol sydd wedi goroesi. Ar ôl tua 1840, dim ond adeiladau o ansawdd a chymeriad pendant a gaiff eu rhestru. Mae hyn am fod llawer mwy o adeiladau wedi'u hadeiladu ar ôl 1840 a bod llawer mwy ohonynt wedi goroesi, sy'n golygu bod angen bod yn fwy detholus er mwyn nodi'r enghreifftiau gorau.

Y dull gweithredu a fabwysiadwyd ar gyfer rhestru adeiladau a godwyd yn ystod yr ugeinfed ganrif yw nodi enghreifftiau allweddol o fathau gwahanol o adeiladau — megis ffatrioedd, ysgolion ac ysbytai. Mae'r enghreifftiau hyn yn diffinio'n fras safon rydym yn barnu cynigion pellach ar gyfer ychwanegiadau at y rhestr yn ei herbyn. Fel arfer dim ond os ydynt o ansawdd eithriadol ac o dan fygythiad y caiff adeiladau sy'n llai na 30 mlwydd oed eu rhestru.

Nid ydym yn ystyried cyflwr adeilad na'r defnydd ohono wrth ei ystyried ar gyfer ei restru.

Gall **rhestru lleol** fod yn ffordd effeithiol o warchod adeiladau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig nad ydynt yn bodloni meini prawf cenedlaethol ond sy'n chwarae rôl hollbwysig wrth gynnal cymeriad lleol ac ymdeimlad o le. Gall awdurdodau cynllunio lleol lunio rhestrau o asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig. Gallant hefyd ddynodi **ardaloedd cadwraeth** oherwydd eu diddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, a llunio polisiau i wella a diogelu eu cymeriad a'u golwg.

Am ragor o wybodaeth am restru lleol ac ardaloedd cadwraeth, gweler *Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig a Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru*. <http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/conservationareas/?lang=cy>




Mae Tŷ Condover (Villa Marina gynt) yn Llandudno yn enghraifft drawiadol o'r arddull fodern ryngwladol gan y pensaer Harry W. Weedon. Mae'r tŷ yn bodloni'r maen prawf diddordeb pensaernïol ar gyfer ei restru'n radd II* oherwydd ansawdd uchel ei gynllun gan bensaer adnabyddus.

© Hawlfraint y Goron (2018), Cadw, Llywodraeth Cymru



Un o'r rhesymau dros restru'r adeiladau fferm yn Nghan-y-Bwlch (gradd II), sy'n dyddio o ganol i ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yw'r defnydd cynnar iawn o goncrid bwrw ar y safle. Mae'r defnydd cynnar a llwyddiannus o'r dechneg hirbarhaol hon yn bodloni'r maen prawf ar gyfer diddordeb pensaernïol.

© Hawlfraint y Goron: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru



Chwith a uchod: Wedi'i restru'n radd II, mae Bryn-yr-Odyn yn dŷ mewn cyflwr da sy'n dyddio o ddiwedd yr unfed ganrif ar bymtheg ac sydd wedi cadw ei gymeriad a'i gynllun gwreiddiol. Fel enghraifft dda o adeilad brodorol cynnar, mae Bryn-yr-Odyn yn bodloni'r maen prawf rhestru ar gyfer diddordeb pensaernïol.

© Hawfraint y Goron (2018): Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru



Mae'n bosibl nad yw'r adeilad syml hwn, a arferai fod yn gaban ceidwad croesfan ar y llinell reilffordd rhwng y Trallwng a'r Drenwydd, yn edrych fel adeilad rhestredig ar yr olwg gyntaf. Fodd bynnag, mae'n bodloni'r maen prawf rhestru ar gyfer diddordeb hanesyddol oherwydd y cysylltiad sydd rhyngddo â gweithrediad y rheilffordd, a ddechreuodd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'r adeilad, sy'n rhestredig gradd II, hefyd yn bodloni'r maen prawf ar gyfer diddordeb pensaernïol am ei fod yn enghraifft dda o fath anarferol a phrin iawn o adeilad sy'n dal i fod yn gymharol gyflawn.

© Hawfraint y Goron (2018), Cadw, Llywodraeth Cymru



Mae'r cerflun o David Davies y tu allan i hen swyddfa Dociau'r Barri yn ein hatgoffa o'r rôl bwysig yr arferai'r naill a'r llall ei chwarae yn y diwydiant glo yng Nghymru. Gwnaed y cerflun, sy'n rhestredig gradd II* oherwydd ei ddiddordeb hanesyddol fel cofeb i sylfaenydd Dociau'r Barri ac fel gwaith un o gerflunwyr pwysicaf Prydain, gan Alfred Gilbert.

© Hawlfraint y Goron (2018), Cadw, Llywodraeth Cymru



Mae rhan o'r disgrifiad ar y rhestr ar gyfer yr adeilad rhestredig gradd II hwn yn Nhalacharn, Sir Gaerfyrddin, yn darllen yn syml 'sied unllawr â tho ar oleddf, estyll fertigol, ffenestri casment a drysau dwbl yn y pen gorllewinol'. Mae'r adeilad hwn, sy'n fwy adnabyddus fel sied ysgrifennu Dylan Thomas, yn bodloni'r maen prawf rhestru ar gyfer cysylltiad hanesyddol agos am iddi gael ei defnyddio gan y bardd enwog. Mae'r tu mewn fel yr oedd pan oedd yn cael ei ddefnyddio gan Dylan Thomas rhwng 1949 a 1953.

© Hawlfraint y Goron (2018), Croeso Cymru



Ochr yn ochr ag adeiladau rhestredig eraill, mae blaen siop hanesyddol Gwyn Davies Cigyddion yn cyfrannu at gymeriad cyffredinol Stryd y Castell, Llangollen, ac yn bodloni'r maen prawf rhestru ar gyfer eu gwerth fel grŵp. Mae'r ffaith ei fod wedi'i restru'n radd II hefyd yn adlewyrchu diddordeb arbennig blaen y siop.

© Hawlfraint y Goron: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru



Mae'r obelisg coch wedi'i gaboli nodedig yn y blaendir yn coffáu William 'Caledryn' Williams, a fu'n gwasanaethu fel gweinidog Capel Groeswen rhwng 1856 a 1869, ond sydd hefyd yn enwog fel beirniad Eisteddfodau ac awdur barddoniaeth a llyfrau ar ramadeg y Gymraeg. Mae'r gofeb hon yn rhestredig gradd II oherwydd ei chysylltiad hanesyddol agos â'r ffigur carismatig hwn yn niwylliant Cymru. Mae'r capel ei hun yn rhestredig gradd II* oherwydd ei ddiddordeb hanesyddol cenedlaethol fel Capel cyntaf y Methodistiaid Calfinaidd yng Nghymru.

© Hawlfraint y Goron (2018), Cadw, Llywodraeth Cymru



Adeiladwyd The Close, Llanfairfechan, gan y pensaer Celf a Chrefft eithriadol Herbert Luck North rhwng 1899 a 1945. Mae'r adeiladau a'r cynllun, nad ydynt wedi newid fawr ddim, yn enghraifft glasurol o bensaernïaeth ddomestig o ansawdd uchel yn yr arddull Celf a Chrefft, sy'n unigryw yng Nghymru. Oherwydd y gwerth grŵp hwn, mae'r tai yn rhestredig gradd II.

© Hawlfraint y Goron (2018), Cadw, Llywodraeth Cymru



Po hynaf yw adeilad, y mwyaf tebygol ydyw y caiff ei restru os yw'n parhau i fod yn eithaf cyflawn. Ond mae'n bosibl y caiff adeiladau mwy diweddar eu restru hefyd, yn enwedig os ydynt yn enghreifftiau prin o fath penodol neu o waith pensaer enwog. Mae Tŷ Bronna, Caerdydd, a adeiladwyd yn 1903–06, yn rhestredig gradd II am mai hwn yw'r unig adeilad yng Nghymru a gynlluniwyd gan y pensaer pwysig rhyngwladol, C. F. A. Voysey.

© Hawlfraint y Goron (2018), Cadw, Llywodraeth Cymru



Mae eglwys Cadog Sant yn Llancarfan yn dyddio o'r ddeuddegfed ganrif ond fe'i hailfodelwyd ar wahanol adegau rhwng diwedd y drydedd ganrif ar ddeg a'r bymthegfed ganrif. Er iddi gael ei hadfer yn 1887–88, mae llawer o nodweddion cynnar yr eglwys i'w gweld o hyd, gan gynnwys llawer iawn o furluniau. Mae pob adeilad a godwyd cyn 1700 ac sydd wedi goroesi yn ei gyflwr gwreiddiol, fwy neu lai, yn cael ei restru ac mae'r eglwys hon yn rhestredig gradd I.

© Hawlfraint y Goron (2018), Cadw, Llywodraeth Cymru



Mae Capel Coffa Mynwent Llangrallo, yn y blaendir, a Chapel Crallo, y tu hwnt iddo, yn dyddio o 1970. Maent yn rhestredig gradd II* oherwydd eu cynllun creadigol ac ystyrion gan Maxwell Fry, y pensaer modernaidd enwog, ac am eu gwerth fel grŵp ag elfennau rhestredig eraill yng nghyfadeilad y fynwent.

© Hawlfraint y Goron (2018), Cadw, Llywodraeth Cymru

3. Dysgu am Adeiladau Rhestredig –

Rydym yn rhoi cofnod adeilad rhestredig i bob rhestriad. Cyhoeddir y cofnodion hyn ar wefan Cof Cymru — Asedau Hanesyddol Cenedlaethol Cymru <http://cadw.gov.wales/historicenvironment/recordsvl/cof-cymru/?lang=cy>.

Prif ddiben y disgrifiad ar y rhestr yw helpu i adnabod yr adeilad neu'r strwythur. Mae pob cofnod ar y rhestr yn cynnwys y canlynol:

- y stryd, enw neu rif yr adeilad
- ei radd
- rhif cyfeirnod a'r Cyfeirnod Grid Cenedlaethol
- disgrifiad byr o'r adeilad a'i hanes
- y rheswm dros ei restru
- cyfeiriadau at wybodaeth arall am yr adeilad a'i bwysigrwydd.

Er y bydd disgrifiad ar y rhestr yn cyfeirio at y nodweddion a arweiniodd at ei restru, mae'n bosibl na fydd yn gofnod cyflawn o'r holl nodweddion pwysig. Gall faint o wybodaeth sydd mewn disgrifiad amrywio.

Mae'n bwysig cofio nad yw'r ffaith bod unrhyw nodwedd (p'un a yw y tu allan i'r adeilad neu'r tu mewn iddo) wedi'i hepgor o'r disgrifiad ar y rhestr yn golygu nad yw o ddiddordeb. Ac ni ddylid ei symud na'i newid heb ganiatâd adeilad rhestredig. Os nad ydych yn siŵr, dylech geisio cyngor eich awdurdod cynllunio lleol.

Mae'r broses restru yn cwmpasu'r adeilad cyfan, y tu mewn a'r tu allan iddo. Mae hyn yn cynnwys unrhyw wrthrych neu strwythur sydd ynghlwm wrth yr adeilad, ac unrhyw wrthrych neu strwythur o fewn 'cwrtill' yr adeilad a adeiladwyd cyn 1 Gorffennaf 1948.

Er enghraifft, mae'n bosibl mai ffermdy yw'r adeilad a enwir yn y cofnod ar y rhestr, ond gall strwythurau eraill megis ysguboriau neu flociau stablau o fewn ei gwrtil fod yn rhan o'r rhestriad o hyd.

Gall eich awdurdod cynllunio lleol ddweud wrthyb beth a gwmpesir gan y rhestriad a ph'un a ddylai strwythurau eraill yn y cyfeiriad hefyd gael eu trin fel petaent yn rhestredig ai peidio.

Cewch ragor o wybodaeth am gwrtil yn *Rheoli Newid i adeiladau rhestredig yng Nghymru* <http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/historicbuildings/?lang=cy>.

Weithiau, gall adeilad neu strwythur fod yn gofrestredig yn ogystal â rhestredig. Mewn achosion o'r fath, mae deddfwriaeth ynglŷn â henebion cofrestredig yn cael blaenoriaeth. Am ragor o wybodaeth am henebion cofrestredig, gweler *Deall Cofrestru a Rheoli Henebion Cofrestredig* <http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/scheduledmonuments/?lang=cy>.

Mae Adeilad y Pierhead, Caerdydd, yn adeilad pwysig iawn yn noclun hanesyddol a gweledol Caerdydd. Mae hefyd yn adeilad Fictoraidd eithriadol sy'n adlewyrchu hyder ei gyfnod ac mae'n rhestredig gradd I. Gall dysgu mwy am bwysigrwydd adeiladau rhestredig amlwg fel hwn helpu pobl i werthfawrogi'r ardal o'u hamgylch, a sicrhau y caiff newid ei reoli'n briodol.

© Hawffraint y Goron (2018), Cadw, Llywodraeth Cymru





Mae Plasau Duon, Caersws, sy'n rhestredig gradd II*, yn dŷ ffrâm bren mewn cyflwr arbennig o dda sy'n dyddio o tua 1660. Er bod y disgrifiad ar y rhestr yn cofnodi'r prif elfennau, mae'n bwysig cofio bod holl elfennau'r tŷ, y tu mewn a'r tu allan, yn cael eu cwmpasu gan y rhestriad p'un a gyfeirir atynt ai peidio. Golyga hyn ei bod yn bwysig dysgu cymaint â phosibl am y tŷ cyn gwneud unrhyw newidiadau iddo. Yn yr achos hwn, mae cofnodion helaeth yng Nghofnod Henebion Cenedlaethol Cymru y gellid cyfeirio atynt. Gallech hefyd gyfeirio at eich cofnod amgylchedd hanesyddol lleol drwy Archwilio neu ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru.

© Hawlfraint y Goron: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru



Mae'r ffermdy ym Modcoll, Ceredigion, yn rhestredig gradd II fel rhan o ffermdy mynyddig sydd ag adeiladau traddodiadol da. Nid yw'r adeiladau traddodiadol wedi'u rhestru yn eu rhinwedd eu hunain ond fe'u lleolir o fewn cwrt y ffermdy. Yn ymarferol, golyga hyn ei bod yn bosibl bod adeiladau'r fferm yn cael eu gwarchod i'r un graddau â'r ffermdy.

© Hawlfraint y Goron: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

4. Sut i Wneud Cais i Restrú Adeilad –

Mae tua 30,000 o adeiladau rhestredig yng Nghymru. Gellir ychwanegu adeiladau at y rhestr o hyd a gallwch gyflwyno ceisiadau i ni restru adeiladau unigol.

Cyn cyflwyno eich cais, mae'n syniad da edrych i weld a yw'r adeilad eisoes wedi'i restru. Gallwch wneud hyn ar Cof Cymru – Asedau Hanesyddol Cenedlaethol Cymru <http://cadw.gov.wales/historicenvironment/recordsv1/cof-cymru/?lang=cy>.

Mae hefyd yn werth siarad â swyddog cadwraeth eich awdurdod cynllunio lleol cyn cysylltu â Cadw.

Mae'n bwysig eich bod yn dweud wrthym am dystiolaeth y mae'n bosibl nad oedd ar gael yn flaenorol, neu esbonio pam mae'n bosibl bod diddordeb arbennig yr adeilad wedi'i ddiystyru.

Gall anawsterau godi pan wneir cynigion i restru adeiladau sy'n wynebu'r bygythiad uniongyrchol o gael eu haddasu neu eu dymchwel. Gall hyn achosi oedi, weithiau gyda chanlyniadau ymarferol ac ariannol difrifol i'r datblygwr. Golyga hyn ei bod yn well asesu adeiladau cyn i unrhyw ganiatâd cynllunio gael ei roi ar gyfer gwaith aildatblygu.

Dylech anfon eich cais i restru atom yn cadw@llyw.cymru gan esbonio pam y dylid ychwanegu'r adeilad at y rhestr, a chynnwys y canlynol:

- enw, cyfeiriad/leoliad yr adeilad, gyda chod post neu gyfeirnod map
- manylion cyswllt y perchennog / deiliad, os yw'n hysbys
- ffotograffau diweddar yn dangos golwg a nodweddion arbennig presennol yr adeilad
- gwybodaeth am hanes yr adeilad — megis y dyddiad adeiladu, defnydd gwreiddiol a datblygiad hanesyddol, nodweddion pensaernïol arbennig, ac unrhyw bobl neu ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig ag ef. Os yw'n bosibl, dylech gynnwys tystiolaeth ysgrifenedig neu ffotograffig i ategu eich cais a rhoi gwybod i ni pa ffynonellau rydych wedi'u defnyddio i ddysgu mwy am yr adeilad
- rhesymau pam eich bod yn credu y gallai'r adeilad fodloni'r meini prawf ar gyfer rhestru.

Byddwn yn asesu'r wybodaeth i weld p'un a yw'r adeilad yn bodloni'r meini prawf cenedlaethol ar gyfer rhestru (gweler adran 2). Os byddwn yn argymhell y dylid ei restru, byddwn yn ymgynghori â'r canlynol:

- perchennog a meddiannydd yr adeilad
- yr awdurdod cynllunio lleol perthnasol
- unrhyw berson arall y credwn fod ganddo wybodaeth arbennig am adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol neu ddiddordeb arbennig ynddynt.

Byddwn yn rhoi 28 diwrnod i ddychwelyd ymatebion ysgrifenedig. Os bydd yr adeilad yn rhestredig, byddwn yn dweud wrth y perchennog, y meddiannydd a'r awdurdod cynllunio lleol.

Gwarchodaeth interim

O ddechrau'r cyfnod ymgynghori, rhoddir gwarchodaeth interim i'r adeilad fel petai wedi'i restru eisoes. Bydd yn drosedd ei ddifrodi neu wneud gwaith sy'n newid ei gymeriad heb ganiatâd adeilad rhestredig.

Bydd gwarchodaeth interim yn parhau nes i benderfyniad gael ei wneud a nes i ni ddweud wrth y perchennog, y meddiannydd a'r awdurdod cynllunio lleol perthnasol. Rydym yn cyhoeddi rhestr o adeiladau o dan warchodaeth interim ar ein gwefan (<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/policy/historicenvironmentbill/statutorynotices/?lang=cy>).

Os nad yw'r adeilad wedi'i restru, efallai y bydd iawndal am golled neu ddifrod a achoswyd gan y warchodaeth interim yn daladwy. Mae'n rhaid cyflwyno hawliadau ysgrifenedig am iawndal o fewn chwe mis i'r dyddiad y daeth y warchodaeth interim i ben.



Ychwanegwyd Pencae, ger Aberdaron, Gwynedd, at y rhestr yn 1998 am ei fod yn fwthyn unllawr mewn cyflwr arbennig o dda, â chrogloff, a beudy ynghlwm wrtho. Mae'r bwthyn, sy'n rhestredig gradd II, yn nodweddiadol o'r ardal.

© Hawlfraint y Goron (2018), Cadw, Llywodraeth Cymru



Gellir ychwanegu adeiladau neu strwythurau newydd at y rhestr unrhyw bryd ar yr amod eu bod yn bodloni'r meini prawf rhestru. Cafodd y 'Dog Stone' ar Fynydd Farteg ei rhestru'n radd II yn 2010. Mae'r gofeb o haearn bwrw yn cofnodi marwolaeth ddamweiniol cyfeirgi o'r enw Carlo a oedd yn eiddo i Henry Kennard o Gwmni Blaenafon. Nid yn unig y mae'r gofeb o wneuthuriad da, ond mae ganddi hefyd gysylltiad cryf iawn â hanes cymdeithasol ac economaidd y rhanbarth am ei bod o ddiddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig.

© Hawlfraint y Goron (2018), Cadw, Llywodraeth Cymru



Mae Rock Houses yn rhestredig gradd II oherwydd eu gwerth grŵp fel teras wedi'i blastro pwysig ar hyd ochr ddeheuol St Julian's Street, Dinbych-y-pysgod. Er iddynt gael eu hychwanegu at y rhestr yn 1951, darparwyd disgrifiad newydd ar gyfer y rhestr yn 2002, a oedd yn ystyried gwybodaeth newydd am y tai.

© Hawlfraint y Goron (2018) Croeso Cymru

5. Sut i Wneud Cais am Adolygiad o Benderfyniad Rhestru –

Gallwch wneud cais i'r Arolygiaeth Gynllunio adolygu'r penderfyniad rhestru o fewn 12 wythnos i'r penderfyniad hwnnw ar y sail nad yw'r adeilad o ddiddordeb pensaernïol na hanesyddol arbennig. Bydd angen i chi gynnwys manylion llawn yr achos. Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn cysylltu ag unrhyw bartion â diddordeb a gyfrannodd at yr ymgynghoriad gwreiddiol ac unrhyw bobl briodol eraill er mwyn iddynt allu cyfrannu at yr adolygiad. Gall hyn fod ar ffurf sylwadau ysgrifenedig, gwrandawriad neu ymchwiliad lleol cyhoeddus.

Ar ôl i'r Arolygiaeth Gynllunio wneud penderfyniad, bydd yn hysbysu'r cyfranogwyr am ei chanfyddiadau ac efallai y bydd angen i ni ddiwygio'r rhestr yn dibynnu ar benderfyniad yr adolygiad.



Adeiladwyd Pont Menai gan Thomas Telford rhwng 1818 a 1826 a chafodd ei rhestru'n radd I yn 1988. Pe bai hwn yn rhestriad newydd heddiw, byddai gennych 12 wythnos o ddyddiad y penderfyniad rhestru i apelio yn ei erbyn a dangos nad yw'r bont o ddiddordeb pensaernïol na hanesyddol arbennig. Yn yr achos hwn, byddai'n anodd profi nad yw'r bont o bwys cenedlaethol!

© Hawlfraint y Goron (2018) Croeso Cymru

6. Sut i Wneud Cais i Ddadrestru Adeilad neu Ddiwygio Rhestriad –

Byddwn yn adolygu rhestriadau yng ngoleuni tystiolaeth newydd. Os byddwch o'r fam y dylid ailystyried rhestriad, dylech anfon y dystiolaeth atom, ynghyd â ffotograffau o'r adeilad a chynllun o'r lleoliad. Mae'n rhaid i'r dystiolaeth ymwneud â diddordeb archaeolegol neu hanesyddol arbennig yr adeilad.

Byddwn yn ymchwilio i'ch tystiolaeth ac efallai y bydd angen i ni ymweld â'r adeilad cyn i ni wneud penderfyniad cychwynol. Os bydd yn argymhell y dylid dadrestru adeilad, byddwn yn ymgynghori â'r canlynol:

- perchennog a meddiannydd yr adeilad

- yr awdurdod cynllunio lleol perthnasol
- ac unrhyw berson arall y credwn fod ganddo wybodaeth arbennig am adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol neu ddiddordeb arbennig ynddynt.

Byddwn yn rhoi 28 diwrnod i ddychwelyd ymatebion ysgrifenedig. Byddwn yn dweud wrth y perchennog, y meddiannydd a'r awdurdod cynllunio lleol os caiff yr adeilad ei ddadrestru.

Gallwch hefyd wneud cais i'r radd restru gael ei hailystyried drwy ddweud wrthym pam mae diddordeb arbennig adeilad wedi cynyddu neu leihau.



Cafodd eglwys Sant Philip, Caerdeon, ei rhestru'n radd II* yn 1992. Mae'r eglwys, a adeiladwyd yn 1862, yn anarferol iawn o safbwynt pensaernïol am fod ei chymeriad gwledig yn deillio o'r Cyfandir yn hytrach na dylanwadau'r arddull Gothig Fictoraidd a oedd mewn bri ar y pryd. Yn dilyn cais diweddar i ailasesu'r rhestriad cafodd yr eglwys ei huwchraddio i radd I.

© Jon Pike 2018

7. Hysbysiadau Cadw Adeilad –

Gall awdurdodau cynllunio lleol gyflwyno hysbysiadau diogelu adeilad er mwyn gwarchod adeiladau anrhestredig sydd, yn eu barn nhw, o ddiddordeb archaeolegol neu hanesyddol arbennig ac mewn perygl o gael eu dymchwel neu eu haddasu mewn ffordd a fydd yn effeithio ar eu cymeriad.

Caiff yr adeilad ei warchod yn yr un ffordd ag adeilad sydd wedi'i restru. Bydd yr hysbysiad mewn grym am hyd at chwe mis ac yn ystod y cyfnod hwn byddwn yn asesu p'un a ddylid restru'r adeilad ai

peidio. Os penderfynwn fod yr adeilad yn bodloni'r meini prawf cenedlaethol ar gyfer rhestru, byddwn yn ymgynghori a chaiff yr adeilad ei ddiogelu drwy warchodaeth interim (gweler adran 4).

Bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn dweud wrth y perchennog a'r meddiannydd os penderfynwn beidio â restru'r adeilad ac efallai y bydd iawndal am golled neu ddifrod a achoswyd gan y warchodaeth interim yn daladwy.



Cafodd yr hen ffermdy ac adeiladau ar Fferm Llanbrynean, Llanfrynach, eu restru'n radd II ar ôl i hysbysiad cadw adeilad gael ei gyflwyno gan yr awdurdod cynllunio lleol. Roedd yr hysbysiad cadw adeilad yn gwarchod yr adeiladau tra roedd Cadw yn eu hasesu i'w restru. Ers hynny, mae'r perchennogion wedi cael caniatâd adeilad rhestredig i adnewyddu'r adeiladau ar Fferm Llanbrynean a'u datblygu'n gyfleuster addysg preswyl. Mae'r gwaith adnewyddu yn parchu cymeriad yr adeiladau sy'n rhestredig oherwydd eu diddordeb pensaernïol arbennig fel rhes uchelgeisiol o adeiladau fferm a ffermdy enghreifftiol a gynlluniwyd yn dda.

© Gyda chaniatâd caredig Tim Hobbs

8. Tystysgrif Imiwnedd rhag Rhestru –

Gallwch wneud cais i ni am dystysgrif imiwnedd rhag rhestru, sy'n atal adeilad rhag cael ei restru yn ystod y pum mlynedd o ddyddiad ei chyflwyno. Ni chaiff awdurdod cynllunio lleol gyflwyno hysbysiad cadw adeilad yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae tystysgrif imiwnedd yn rhoi sicrwydd i berchenogion a datblygwyr sy'n ystyried gwaith ar adeilad penodol.

Byddwn yn asesu ceisiadau am dystysgrifau mewn ffordd debyg i gynnig ar gyfer rhestru. Golyga hyn y dylai ceisiadau gynnwys yr un wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer cais i restru (gweler adran 4). Os na fydd adeilad yn bodloni'r meini prawf ar gyfer rhestru, byddwn yn cyflwyno tystysgrif imiwnedd. Dylai ymgeiswyr hefyd hysbysu'r awdurdod cynllunio lleol am y cais.



Mae Teras Alfred, Ffynnon Taf, yn rhestredig gradd II am ei fod yn enghraifft o deras o fythynnod gweithwyr sydd mewn cyflwr anarferol o dda. Golyga hyn y byddai angen i'r perchenogion geisio caniatâd adeilad rhestredig er mwyn gwneud unrhyw newidiadau a fyddai'n newid ei gymeriad. Gall perchenogion a datblygwyr adeiladau hanesyddol anrhestredig wneud cais am dystysgrif imiwnedd rhag rhestru a all fod o gymorth wrth gynllunio gwaith newydd.

© Hawlfraint y Goron (2018), Cadw, Llywodraeth

9. Gofalu am Adeiladau Rhestredig –

Fel perchennog unrhyw ased, perchennogion adeiladau rhestredig sy'n gyfrifol am ofalu am eu heiddo. Er nad yw perchennogion o dan unrhyw rwymedigaeth ffurfiol, mae cadw adeilad rhestredig mewn cyflwr da yn helpu i sicrhau y bydd yn goroesi yn yr hirdymor ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Cyn dechrau ar unrhyw waith, mae'n syniad da i berchenogion ddeall beth sy'n gwneud eu hadeilad rhestredig yn arbennig er mwyn i unrhyw waith allu ystyried hynny.

Ceir rhagor o wybodaeth am waith cynnal a chadw ac atgyweirio ar ein gwefan yn yr adran Cynnal a Chadw! <http://cadw.gov.wales/historicenvironment/help-advice-and-grants/maintenancematters/?lang=cy>.

Mae Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru yn esbonio sut i ddeall arwyddocâd adeilad rhestredig a'r ffordd orau o gynllunio a gwneud newidiadau iddo <http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/historicbuildings/?lang=cy>.

Rhestrir rhai ffynonellau defnyddiol o wybodaeth bellach ar ddiwedd y canllaw hwn hefyd.

Mae gan awdurdodau cynllunio lleol gwahanol bwerau hefyd y gallant eu defnyddio er mwyn helpu i ofalu am adeiladau sydd mewn perygl. Mae'r rhain yn cynnwys y pwerau i wneud gwaith brys sydd ei angen i ddiogelu adeilad rhestredig ac adennill y gost oddi wrth y perchennog. Gallant hefyd gyflwyno hysbysiad atgyweirio. Os na fydd y perchennog yn cydymffurfio ag amodau'r hysbysiad atgyweirio, efallai y bydd yr awdurdod lleol yn ystyried prynu'r eiddo yn orfodol. Dim ond pan fetho popeth arall y defnyddir y mesurau hyn am fod y rhan fwyaf o berchenogion yn awyddus i ofalu am eu hadeiladau rhestredig a gweithio gydag awdurdodau.

Cewch ragor o wybodaeth am y mesurau a'r pwerau i warchod adeiladau rhestredig yn *Rheoli Adeiladau Rhestredig sydd mewn Perygl yng Nghymru* <http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/historicbuildings/?lang=cy>.

Gwaith cynnal a chadw rheolaidd yw'r ffordd orau o gadw adeilad rhestredig mewn cyflwr da. Mae cadw draeniau yn glir yn ffordd syml ond effeithiol o atal lleithder.

© Hawlfraint y Goron (2018), Cadw, Llywodraeth Cymru



Mae'n bwysig defnyddio'r deunyddiau priodol wrth gynnal a chadw ac atgyweirio adeiladau rhestredig. Mae gwyngalchu yn orffeniad traddodiadol ac effeithiol i warchod adeiladau â waliau solet.

© Frans Nicholas

10. Gwneud Newidiadau i Adeiladau Rhestredig –

Os byddwch am newid, ymestyn neu ddymchwel adeilad rhestredig, bydd angen i chi gysylltu â'ch awdurdod cynllunio lleol er mwyn gweld a fydd angen i chi gael caniatâd adeilad rhestredig.

Mae'n drosedd dymchwel, newid neu ymestyn adeilad rhestredig mewn unrhyw ffordd sy'n effeithio ar ei gymeriad fel adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig oni fydd gennych ganiatâd adeilad rhestredig. Felly, mae'n bwysig eich bod yn holi eich awdurdod cynllunio lleol cyn dechrau ar unrhyw waith.

Fel arfer, ni fydd angen i chi gael caniatâd adeilad rhestredig i wneud gwaith atgyweirio gan ddefnyddio deunyddiau a thechnegau sy'n cyfateb i'r rhai

a ddefnyddiwyd yn wreiddiol, megis tynnu llechi oddi ar do a rhoi llechi union debyg o ran maint a math yn eu lle, ond mae'n debygol y bydd angen i chi gael caniatâd i wneud gwaith atgyweirio a all effeithio ar gymeriad yr adeilad. Gall hyn gynnwys glanhau gwaith cerrig neu osod ffenestri newydd yn lle rhai gwreiddiol.

Eich awdurdod cynllunio lleol yw'r prif bwynt cyswllt ar gyfer pob cais am ganiatâd adeilad rhestredig. Ceir rhagor o wybodaeth am wneud cais am ganiatâd adeilad rhestredig yn *Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru* <http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/historicbuildings/?lang=cy>.



Gall newid a reolir yn ofalus adfywio adeiladau rhestredig. Mae Tai Tywyn, Prestatyn, Sir Ddinbych, yn grŵp o fythynnod pysgotwyr sy'n rhestredig gradd II. Maent wedi'u haddasu'n ganolfan fusnes drwy ychwanegu adeiladau mewn arddull gyfoes yn y cefn (uchod). Mae cymeriad a mesuriadau gwreiddiol tu blaen yr adeilad wedi goroesi (chwith).

© Hawfraint y Goron (2018), Cadw, Llywodraeth Cymru



Gall gwneud newidiadau i adeiladau rhestredig ddod â manteision cymdeithasol ac economaidd cadarnhaol yn ogystal â diogelu treftadaeth Cymru ar gyfer y dyfodol. Roedd Llwyn Celyn, sy'n rhestredig gradd I, mewn perygl o gael ei golli (chwith) ond, ar ôl sicrhau'r caniatadau priodol, mae'r tŷ yn cael ei adfer gan y Landmark Trust er mwyn darparu llety gwyliau. Mae'r ysguboriau hanesyddol o'i amgylch yn cael eu haddasu i'w defnyddio at ddibenion addysgol a chymunedol.

© Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (chwith); drwy garedigrwydd y Landmark Trust (de)

11. Grantiau

Weithiau gallwn gynnig grantiau i helpu gyda gwaith atgyweirio. Cyhoeddir manylion ar ein gweran <http://cadw.gov.wales/historicenvironment/help-advice-and-grants/grants/historicbuildings/?lang=cy>

Mae grantiau hefyd ar gael ar gyfer adeiladau hanesyddol gan adrannau eraill o Lywodraeth Cymru, megis y Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol <http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/community-facilities->

[programme/?lang=cy](#) neu gan sefydliadau megis Cronfa Dreftadaeth y Loteri <https://cymraeg.hlf.org.uk/> neu Ymddiriedolaeth Genedlaethol yr Eglwysi <https://www.nationalchurchestrust.org/>

Cyhoeddir canllaw ar-lein am ddim, a gaiff ei ddiweddarau'n rheolaidd, ar ffynonellau ariannu perthnasol ar gyfer adeiladau hanesyddol ar wefan y Cyfeirlyfr Ariannu Treftadaeth. <http://www.heritagefundingdirectoryuk.org/>



Mae Bwthyn Penmaen ger Dolgellau yn rhestredig gradd II ac yn enghraifft dda, nad yw wedi newid, o fwthyn sy'n dyddio o'r ddeunawfed ganrif a adeiladwyd yn yr arddull leol gan ddefnyddio deunyddiau lleol. Mae cyflwr ei do llechi ar hap traddodiadol wedi dirywio dros nifer o flynyddoedd ac ystyriwyd bod y bwthyn mewn perygl (chwith). Cynigiodd Cadw grant tuag at gost atgyweirio'r adeilad ar yr amod bod hyfforddiant sgiliau traddodiadol yn cael ei ddarparu fel rhan o'r gwaith. Arweiniodd hyn at gydweithredu ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i ddarparu'r hyfforddiant sgiliau ac, o ganlyniad, adferwyd y bwthyn yn llwyddiannus.

© Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Rhagor o Wybodaeth –

Deddfwriaeth, Polisi a Chanllawiau Cynllunio

Deddf Henebion a Mannau Archeolegol 1979
<https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1979/46>

Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 <http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1990/9/contents>

Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 <http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/4/contents/enacted/welsh>

Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9) <https://gov.wales/topics/planning/policy/ppw/?lang=cy>

Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9), Pennod 6:
Yr Amgylchedd Hanesyddol <https://gov.wales/topics/planning/policy/ppw/?lang=cy>

Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol
<https://gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan-24/?lang=cy>

Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio <https://gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan12/?lang=cy>

Llawlyfr Rheoli Datblygu <http://gov.wales/topics/planning/policy/development-management-manual/development-management-manual-without-annexes/?lang=en>

Canllawiau Arfer Gorau

Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy, Cadw, Llywodraeth Cymru, 2011 <http://cadw.gov.wales/historicenvironment/conservation/conservationprinciples/?lang=cy>

Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017 <http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/historicbuildings/?lang=cy>

Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017 <http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/historicbuildings/?lang=cy>

Rheoli Newid i Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017 <http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/historicparksandgardens/?lang=cy>

Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017 <http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/conservationareas/?lang=cy>

Rheoli Adeiladau Rhestredig sydd mewn Perygl yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017 <http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/historicbuildings/?lang=cy>

Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017 <http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/conservationareas/?lang=cy>

Rheoli Henebion Cofrestredig yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2018 <http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/scheduledmonuments/?lang=cy>

Gwireddu Potensial Trafodaethau cyn Gwneud Ceisiadau Cynllunio, Canllaw Arfer Llywodraeth Cymru, Mai 2012 <http://gov.wales/topics/planning/policy/guidanceandleaflets/preappguide/?lang=cy>

Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017 <http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/historicbuildings/?lang=cy>

Cynnal a Chadw a Chadwraeth

Mae Cadw wedi cyhoeddi amrywiaeth o gyhoeddiadau ar ofalu am wahanol fathau o adeilad, eu gwarchod a'u haddasu. Mae'r rhain ar gael ar-lein yn: <http://cadw.gov.wales/historicenvironment/help-advice-and-grants/lookingafteryourproperty/bestpractice/?lang=cy>

BS7913 Guide to the Conservation of Historic Buildings <http://shop.bsigroup.com/ProductDetail/?pid=00000000030248522>

Historic England
<https://historicengland.org.uk/advice/your-home/>

Historic Environment Scotland
<https://www.engineshed.org/>

Sefydliad Cadwraeth Adeiladau Hanesyddol
<http://www.ihbc.org.uk/>

Cynnal a Chadw! <http://cadw.gov.wales/historicenvironment/help-advice-and-grants/maintenancematters/?lang=cy>

Gwybodaeth Hanesyddol

Efallai y bydd y ffynonellau canlynol yn ddefnyddiol os byddwch yn chwilio am ragor o wybodaeth am adeilad rhestredig.

Archifau Cymru — catalog ar-lein sy'n eich galluogi i chwilio am wybodaeth mewn mwy na 7,000 o gasgliadau o gofnodion hanesyddol a ddelir gan 21 o archifau yng Nghymru. <https://archifau.cymru/>

Archwilio — mae'n galluogi'r cyhoedd i weld y cofnodion amgylchedd hanesyddol ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Caiff Archwilio ei gynnal a'i ategu â rhagor o wybodaeth a gedwir gan ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru. https://www.archwilio.org.uk/arch/index_cym.html

Coflein — y catalog ar-lein ar gyfer Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru, y casgliad cenedlaethol o wybodaeth am amgylchedd hanesyddol Cymru. <http://www.coflein.gov.uk/cy/>

Cof Cymru — Cofnod ar-lein Cadw o asedau hanesyddol cenedlaethol Cymru, sy'n cynnwys adeiladau rhestredig, henebion cofrestredig, llongddrylliadau a warchodir, Safleoedd Treftadaeth y Byd a thirweddau hanesyddol cofrestredig. Ychwanegir parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig at Cof Cymru yn ystod 2018 <http://cadw.gov.wales/historicenvironment/recordsv1/cof-cymru/?lang=cy>

Cynefin — adnodd ar-lein i chwilio mapiau degwm Cymru a'u mynegeion <http://cynefin.archiveswales.org.uk/cy/>

Cymru Hanesyddol — porth ar-lein i gofnodion amgylchedd hanesyddol cenedlaethol a rhanbarthol www.cymruhanesyddol.gov.uk

Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol yng Nghymru — mae'n cofnodi'r gwahanol ffurfiau a sillafiadau a ddefnyddir ar gyfer enwau nodweddion topograffig, cymunedau, prif ffyrdd, strwythurau ac agweddau eraill ar y dirwedd a gofnodir mewn ffynonellau sy'n rhagddyddio'r Rhyfel Byd Cyntaf. <https://enwaulleoeddhanesyddol.cbhc.gov.uk/>

Llyfrgell Genedlaethol Cymru www.llgc.org.uk

Grantiau

Efallai y bydd y ffynonellau canlynol yn ddefnyddiol os byddwch yn chwilio am ragor o wybodaeth am adeilad rhestredig.

Cadw
<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/help-advice-and-grants/grants/historicbuildings/?lang=cy>

Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol Llywodraeth Cymru
<https://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/community-facilities-programme/?lang=cy>

Cronfa Dreftadaeth y Loteri
<https://cymraeg.hlf.org.uk/>

Ymddiriedolaeth Genedlaethol yr Eglwysi
<https://www.nationalchurchestrust.org/>

Y Cyfeirlyfr Ariannu Treftadaeth
<http://www.heritagefundingdirectoryuk.org/>

Cysylltiadau ⇐

Cadw, Llywodraeth Cymru

Plas Carew
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd
CF15 7QQ
Ffôn: 03000 256000
cadw@llyw.cymru
<http://cadw.gov.wales/?lang=cy>

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Ffordd Penglais
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3BU
Ffôn: 01970 621200
nmr.wales@rcahmw.gov.uk
<https://cbhc.gov.uk/>

Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru

nmr.wales@rcahmw.gov.uk
<http://www.coflein.gov.uk/cy/>

Yr Arolygiaeth Gynllunio

Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 3866
wales@pins.gsi.gov.uk
<http://planninginspectorate.wales.gov.uk/?lang=cy>

Awdurdodau Cynllunio Lleol

Gellir cysylltu â swyddogion cadwraeth a chynllunio awdurdodau cynllunio lleol drwy wefan yr awdurdod lleol perthnasol.

Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru

Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys
41 Stryd Lydan
y Trallwng
SY21 7RR
Ffôn: 01938 553670
trust@cpat.org.uk
http://www.cpat.org.uk/w_index.htm

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed

The Corner House
6 Stryd Caerfyrddin
Llandeilo
SA19 6AE
Ffôn: 01558 823121
info@dyfedarchaeology.org.uk
www.dyfedarchaeology.org.uk

Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg-Gwent

Heathfield House
Heathfield
Abertawe
SA1 6EL
Ffôn: 01792 655208
enquiries@ggat.org.uk
http://www.ggat.org.uk/index_cym.html

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd

Craig Beuno
Ffordd y Garth
Bangor
LL57 2RT
Ffôn: 01248 352535
gat@heneb.co.uk
www.heneb.co.uk

Dolenni o'r ddogfen hon ⇐

Os yw'r ddogfen hon yn cynnwys dolenni i safleoedd ac adnoddau eraill a ddarperir gan drydydd partion, darperir y dolenni hyn er gwybodaeth i chi yn unig. Ni ddylid cymryd bod dolennu yn gymeradwyaeth o unrhyw fath. Nid oes gan Cadw reolaeth dros gynnwys nac argaeledd tudalennau â dolenni ac nid yw'n derbyn cyfrifoldeb amdanynt hwy nac am unrhyw golled neu ddifrod a all godi os gwnewch eu defnyddio.